# ROBERTS, ROBERT DAVIES (1851 - 1911), arloeswr addysg rhai mewn oed, a gwyddonydd

**Enw:** Robert Davies Roberts
**Dyddiad geni:** 1851
**Dyddiad marw:** 1911
**Priod:** Mary Roberts (née King)
**Rhiant:** Sara Roberts (née Davies)
**Rhiant:** Richard Davies Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arloeswr addysg rhai mewn oed, a gwyddonydd
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Gwyddoniaeth a Mathemateg
**Awdur:** Benjamin Bowen Thomas

Ganwyd 5 Mawrth 1851 yn Aberystwyth, mab hynaf Richard Davies Roberts, gwerthwr coed, a Sara Davies. Addysgwyd ef yn Aberystwyth, yng Nghroesoswallt, y Liverpool Institute, Coleg y Brifysgol, Llundain (B.Sc., dosbarth 1, daeareg, 1870; D.Sc. 1878), Coleg Clare, Caergrawnt (dosbarth 2, gwyddoniaeth naturiol, 1875). Bu'n ddarlithydd dros dro yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1876-7), darlithydd allanol ym Mhrifysgol Caergrawnt (1878-81), ysgrifennydd cynorthwyol pwyllgor darlithoedd lleol Prifysgol Caergrawnt (1881-94), cymrawd o Coleg Clare a darlithydd mewn daeareg yn y Brifysgol (1884), ysgrifennydd Cymdeithas Llundain i Ledaenu Addysg Prifysgol (1886), ysgrifennydd Cronfa Gilchrist a golygydd *The University Extension Journal* (1889), ysgrifennydd Bwrdd Prifysgol Caergrawnt i drefnu darlithoedd allanol (1894-1902), cofrestrydd adran allanol Prifysgol Llundain (1902-11). Cyhoeddodd *Earth's History: An Introduction to Geology*, 1893. Priododd, 1888, Mary King, Brighton. Bu farw yn Kensington, 11 Tachwedd 1911.

Daliai Roberts y dylid cyfrif addysg rhai mewn oed yn rhan hanfodol o gyfundrefn addysg Lloegr a Chymru, y dylai'r prifysgolion fod yn gyfrifol amdano, ac y dylid ychwanegu at eu nifer er mwyn sicrhau hyn. Fel lladmerydd, arweinydd, ac arloeswr, nid oedd personoliaeth amlycach. Credai mewn sefydlu coleg yngl n â phob prifysgol ar gyfer myfyrwyr rhanamser i ddyfarnu tystysgrifau, diplomau, a graddau yn holl bynciau'r brifysgol. Ei bwyslais ar safonau uchel a gwaith ysgrifenedig a arweiniodd i'r dosbarth tiwtorial; trefnodd ysgolion haf; pleidiodd 'matriculation' a sgoloriaethau i bobl mewn oed, a chynrychiolaeth i fudiadau cymdeithasol ar fyrddau allanol y prifysgolion. Gweithiodd dros sefydlu llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau megis Toynbee Hall. Tua diwedd ei oes, methodd weld pwysigrwydd undebau llafur, y mudiad cydweithredol, ac Undeb Addysg y Gweithwyr i'w waith. Fel ysgolhaig a threfnydd helpodd i sefydlu Prifysgol Cymru, ond dadleuai y dylai hi roi graddau 'di-breswyl' megis y gwnâi Llundain. Yr oedd yn ' Junior Deputy Chancellor ' yn 1903 ac yn gadeirydd pwyllgor gwaith y Brifysgol yn 1911.

## Awdur

**Syr Benjamin Bowen Thomas**, (1899 - 1977)

## Ffynonellau


R. D. Roberts, *Eighteen Years of University Extension* (Caergrawnt 1891)

*University Extension under the old and new Conditions*

erthyglau gan R. D. Roberts yn *Y Traethodydd*, Mawrth 1887, *The Education Review*, vii, *University Extension Congress, London, 1894. Report of the Proceedings, etc* (Llundain 1894), 1894

*Transactions of the Liverpool Welsh National Society*, 1898

B. B. Thomas, 'R. D. Roberts and Adult Education' yn *Harlech Studies. Essays presented to Dr. Jones, Thomas* (Caerdydd 1938)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Davies Roberts

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 196350263

Wikidata: Q19043555


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu